Rowan Williams: 1950–

Disgwyl yr annisgwyl

Dyfalbarhad / ffyddlondeb / ymddiriedaeth / gosod esiampl

Rowan Williams ydi'r Cymro cyntaf erioed i gael ei orseddu'n Archesgob Caergaint. Cyn ei benodi'n Archesgob Caergaint, ef oedd Archesgob Cymru. Dyma ychydig o gerrig milltir yn ei hanes:

% Rowan Douglas Williams.
% Geni, Ystradgynlais, 1950.
% Symud i fyw i'r Mwmbwls.
% Aelod o gôr Eglwys yr Hollsaint, Ystumllwynarth.
% Ficer yr eglwys, Y Parchedig Eddie Hughes, yn ddylanwad mawr arno.
% Ysgol Ramadeg Dinefwr.
% B.A. Coleg Crist, Caergrawnt – 1971
% M.A. Coleg Crist, Caergrawnt – 1975
% Coleg yr Atgyfodiad, Mirfield – 1975
% Offeiriad – 1978
% Priodi â Jane – 1981
% Rhiannon ei ferch yn cael ei geni – 1988
% Pip ei fab yn cael ei eni – 1996
% Athro Diwinyddiaeth, Rhydychen – 1986 – 1992
% Esgob Mynwy – 1991
% Archesgob Cymru – 1999
Archesgob Caergaint – 2003

Ychydig wythnosau cyn iddo hel ei bac a mynd am Gaergaint, cafwyd cyfle i ofyn pedwar o gwestiynau iddo. Dyma oedd ei atebion:

Pa lyfrau wnaeth ddylanwadu arnoch chi pan oeddech yn blentyn?

Yn gynnar iawn roeddwn i'n diddori mewn llyfrau o straeon gwerin, mythau a chwedlau a hefyd llyfrau hanes. Fedra i ddim enwi un llyfr arbennig ond roeddwn i'n synhwyro rywsut y gallai'r byd fod yn lle gwahanol, boed yn y gorffennol neu ym myd chwedloniaeth ac mae hynny yn rhoi'r syniad i chi o bethau rhyfedd yn digwydd rownd y gornel. Rwy'n credu bod a wnelo hyn â'm cred grefyddol, sef bod y byd yn lle rhyfedd a diddorol. Mae Duw yn dal i ddisgwyl rownd y gornel.

Fyddech chi'n hoffi bod yn blentyn yn tyfu i fyny heddiw?

Mae hi'n anodd iawn cymharu tyfu i fyny mewn gwahanol gyfnodau oherwydd dim ond y bobl sy'n tyfu i fyny yn y cyfnod hwnnw sy'n gwybod yn iawn. Rwy'n credu weithiau fod plant heddiw yn colli peth o'r rhyddid oedd gen i fel bachgen – chwarae yn yr awyr iach, mynd am dro a phethau felly, yn enwedig pan oeddwn i yn f'arddegau.

Oes yna le i blant yn yr eglwys heddiw?

Mae'n rhaid i unrhyw eglwys sy'n gwneud ei gwaith o ddifrif groesawu plant a dydw i ddim yn credu y dylen nhw ymddwyn fel oedolion bob amser! Y dyddiau hyn mae yna ddigon o gyrsiau a digon o weithgareddau ar gyfer plant, a diolch amdanyn nhw. Mae'n bwysig iawn ein bod yn trin plant o ddifrif fel aelodau o'r eglwys, nid fel aelodau sy'n llenwi'r seddau, nid yn unig fel aelodau o eglwys yfory ond fel aelodau o'r eglwys heddiw.

Beth ydi'ch syniad chi o eglwys ar gyfer y ganrif hon?

Bydd yr eglwys yn y ganrif hon, yn fy marn i, yn lle o amrywiaeth a bydd nifer o wahanol fathau o addoliad yn digwydd ochr yn ochr, ac nid ar y Sul yn unig y bydd hyn yn digwydd. Bydd gweithgareddau yn digwydd yn ystod yr wythnos, gwahanol bethau ar gyfer gwahanol fath o bobl. Credaf fod yna amser diddorol iawn o'n blaenau, nid yn unig yma ond ar draws y byd i gyd.

Diolch i'r Archesgob am roi o'i amser i ateb y cwestiynau.

"Byddwch yn dirion wrth eich gilydd, yn dyner eich calon, yn maddau i'ch gilydd..."

Effesiaid 4:32

O Dduw,
rho i Rowan
y gallu i arwain yn ddoeth
ac i wneud d'ewyllys Di bob amser.
Amen.

Beth fyddech chi'n ei ddweud ydi gwaith archesgob?

Rowan Williams: 1950-